

Cadw pysgod

Oes modd defnyddio dŵr tap mewn pwll neu acwariwm?

Pennwyd safonau ansawdd dŵr er mwyn sicrhau bydd dŵr tap yn ddiogel i'w yfed gan bobl. Bydd gweithfeydd trin dŵr yn addasu'r pH er mwyn sicrhau na fydd dŵr yn pydru pibellau metel ac yn ychwanegu clorin er mwyn ei ddiogelu. Fel arfer, ni fydd pysgod yn wynebu dŵr alcali meddal ac nid ydynt yn gallu goddef clorin, felly bydd rhaid trin dŵr tap cyn ei ddefnyddio ar gyfer pysgod neu organebau dyfrol eraill. Ond, cyn belled byddwch yn dilyn rhai rheolau sylfaenol, gallwch ddefnyddio dŵr tap mewn acwaria neu byllau dŵr sy'n cynnwys rhywogaethau pysgod gwydn.

Bydd angen addasu dŵr tap ymhellach ar gyfer rhai mathau o bysgod sensitif. Felly, bydd angen sefydlu anghenion dŵr rhai rhywogaethau o'r cychwyn. Er enghraifft, ychwanegu halen môr ar gyfer pysgod morol, tra bod rhai pysgod o'r Amazon angen dŵr asid meddal a cichlids (o Malawi) yn hoffi dŵr alcali caled. Bydd yr addasiadau hyn yn bwysicach fyth wrth gadw rhywogaethau sensitif.

Cyn prynu pysgod, yn arbennig rhywogaethau môr a throfannol sydd angen amgylcheddau penodol, bydd yn werth darllen llyfr neu holi'r cyflenwr am yr offer neu gemegau fydd angen i drin y dŵr.

Rheolau sylfaenol cadw pysgod

- Defnyddio dŵr o dap oer yn cysylltu â'r prif gyflenwad dŵr bob tro, nid dŵr tanc
- Rhedeg y tap am gyfnod i waredu dŵr yn sefyll yn y pibellau cyn llenwi acwariwm ac ati
- Rhai pysgod ac anifeiliaid morol di-asgwrn-cefn yn sensitif iawn i fetelau fel copr a sinc o fewn pibellau, sy'n gallu crynhoi dros amser mewn tanciau a phyllau dŵr
- Osgoi defnyddio dŵr o dap poeth, neu ddŵr wedi'i drin gyda meddalyddion

Tymheredd

Yn gyffredinol mae dŵr tap yn llawer oerach na dŵr mewn acwaria a thanciau dŵr dan do, a gall fod yn oerach na phwll dŵr yn yr haf. Nid yw pysgod yn gallu goddef newidiadau tymheredd cyflym, gan ddioddef sioc sy'n gallu profi'n farwol.

Os yn gwresogi acwariwm, cofiwch gynhesu dŵr tap wrth ychwanegu ychydig o ddŵr wedi'i ferwi mewn cynhwysydd nid-metel, neu wrth ddefnyddio gwresogydd acwariwm i godi'r tymheredd. Ni ddylai chwistrelli dŵr yn araf i ail-lenwi pyllau dŵr achosi problemau, cyn belled yr ychwanegir dim ond ychydig o ddŵr yn rheolaidd.

Clorin

Bydd Dŵr Cymru yn diheintio dŵr tap gyda chrynodiad isel o glorin er mwyn ei wneud yn ddiogel i yfed. Nid yw clorin / cloraminau yn bygwth iechyd pobl, ond maent yn effeithio pysgod ac organebau dyfrol eraill. Felly, bydd yn bwysig gwaredu clorin a chloraminau o'r dŵr cyn ei ychwanegu at ddŵr pysgod. Gwnewch hynny wrth ychwanegu 'dechlorinator' i'r dŵr cyn ei roi mewn tanc neu bwell. Yn ogystal, cofiwch ddarllen y cyfarwyddiadau wrth ddefnyddio dechlorinator. Os bydd ardal yn derbyn dŵr yn cynnwys cloraminau, a phobl yn cadw pysgod sensitif fel koi neu discus, dylid defnyddio cyflyrydd i waredu amonia o'r dŵr a ryddheir wrth ymddatodi cloraminau. Yma eto, dilynwch y cyfarwyddiadau manwl.

Fydd dŵr tap yn newid ar ôl ei roi mewn pwll neu acwariwm?

Bydd. Mae gwastraff pysgod, tyfiant planhigion ac alga, gorfwydo a diffyg ffiltro yn cynhyrchu gwastraff nitrogenus gwenwynig, sy'n gostwng lefelau ocsigen. Mae tyfiant alga yn gallu newid lefelau pH yn ddyddiol. Os bydd gwastraff nitrogenus yn crynhoi bydd yn bygwth iechyd y pysgod. Mae ffilterau biolegol yn gallu gwaredu gwastraff nitrogenus, ond rhaid eu cynnal yn iawn. Mae digonedd o lyfrau da ar gynllunio pyllau dŵr a rheoli tanciau ac acwaria mewn llyfrgelloedd, ynghyd â llyfrau ac offer arbenigol mewn siopau acwaria.